# DaTh UG: DYLUNIO CYNNYRCH: Blwyddyn 13 RhDd1

Ysgol Brynhyfryd

| Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu: | Geiriau/Termau Allweddol: |
|---|---|
| • **Bydd y myfyrwyr yn gallu astudio briffiau gosod, ymchwilio iddynt a chreu eu briff personol eu hunain.**<br>• **Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio'r hanner tymor hwn i ddatblygu eu sgiliau meddwl a'u gallu i weithio'n annibynnol mewn modd trefnus.**<br>• **Bydd y myfyrwyr yn gallu creu manyleb ddylunio fanwl, datblygu cyfres o gynigion dylunio yn ogystal ag ystyried y deunyddiau mwyaf addas.**<br>• **Bydd y myfyrwyr yn dangos eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth trwy greu prosiect/cynnyrch terfynol o safon uchel.**<br>• **Bydd y myfyrwyr yn gallu datblygu eu gwybodaeth wrth baratoi ar gyfer yr arholiad UG ysgrifenedig ym mis Mai.** | **Briff, Dadansoddi, Data, Syniadau, Datblygu, Dylunio, Paratoi, Diagramau, Adnoddau, Cynnyrch, Deunyddiau, Ymchwil, Ystyried, Samplau Lluniadu, Cywrain, Peiriant, Cydrannau, Offer, Anthropometrig, Dylunio â chymorth cyfrifiadur (CAD)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 1:**<br><br>**1&2 Bydd y myfyrwyr yn gallu…**<br>**Dadansoddi a pharatoi ar gyfer gwaith ymchwil**<br>* Dadansoddi Briff y bwrdd arholi.<br>* Creu cynllun ymchwil i roi ffocws i'w gwaith ymchwil.<br>* Llunio Siart Gantt i gynllunio eu hamser yn effeithiol.<br><br>**3&4 Bydd y myfyrwyr yn gallu…**<br>**Dadansoddi a pharatoi ar gyfer gwaith ymchwil**<br>* Casglu syniadau – dadansoddi'r geiriau allweddol yn y Briff a ddewiswyd.<br>* Llunio a drafftio eu Briff personol i lywio eu gwaith ymchwil ymhellach.<br>* Creu bwrdd naws i ysbrydoli'r dyluniad.<br><br>***Cyfnod Astudio Annibynnol***<br>Dadansoddi cynnyrch tebyg/sy'n bodoli'n barod gan ddefnyddio ACCESS FM a/neu SCAMPER. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn dehongli'r briff ac yn egluro eu bwriadau'n glir.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn ymchwilio i'r thema. | **Gwaith Cartref W1**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Ymchwilio'n fanwl i'r holl friffiau cyn dewis un. (edrych ar gynnyrch tebyg/sy'n bodoli'n barod) |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 2:**<br><br>**5-8 Bydd y myfyrwyr yn... Ymchwil**<br>* Bydd y myfyrwyr yn ymchwilio'n annibynnol am wybodaeth berthnasol i'r Briff y maent wedi ei ddewis:<br>Testunau ymchwil nodweddiadol:-<br>Deunyddiau, Dylunwyr, Ergonomeg, Ystyriaethau Amgylcheddol, Cynnyrch Cystadleuwyr, Marchnad Darged, Gorffeniadau, Diogelwch, Materion Cynaladwyedd. Gallant hefyd ddefnyddio ACCESS FM/SCAMPER i ddadansoddi cynnyrch cystadleuwyr.<br><br>***Cyfnod Astudio Annibynnol***<br>Drafftio holiadur i ganfod pwy yw'r gynulleidfa darged a cheisio cael o leiaf 30 o atebion. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn dehongli'r briff ac yn egluro eu bwriadau'n glir.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn ymchwilio i'r dasg. | **Gwaith Cartref W2**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Ymchwilio'n fanwl i'r 3 briff cyn dewis un. (edrych ar gynnyrch tebyg/sy'n bodoli'n barod) |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 3:**<br><br>**9 – 11 Bydd y myfyrwyr yn gallu… Dadansoddi Cynnyrch**<br>* Bydd y myfyrwyr yn cwblhau tasg ddadansoddi i ddadansoddi cynnyrch tebyg yn fanwl, gan ddefnyddio'r dull uwchben ac o dan y llinell wrth werthuso cynhyrchion.<br>* Gall y myfyrwyr ddod â'u cynhyrchion eu hunain i'r ysgol a'u tynnu'n ddarnau, os oes angen.<br><br>**12 Bydd y myfyrwyr yn gallu… Crynhoi'r gwaith ymchwil**<br>* Bydd y myfyrwyr yn crynhoi'r holl waith ymchwil – yr hyn y maent wedi ei ddysgu am wahanol destunau a sut mae'r wybodaeth yn mynd i'w helpu/ysbrydoli wrth ddylunio.<br><br>***Cyfnod Astudio Annibynnol.***<br>Prosesu canlyniadau'r holiadur a chrynhoi'r canfyddiadau. | Asesiad | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn dangos eu bod wedi ymchwilio'n fanwl i'r briff.<br>Bydd y myfyrwyr yn dangos eu bod wedi cynnal Dadansoddiad Cynnyrch ar gynnyrch tebyg. | **Gwaith Cartref W3**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Ymchwil yn seiliedig ar eu hymchwil |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 4:**<br><br>**13 – 14 Bydd y myfyrwyr yn arddangos… Manyleb Ddylunio**<br>* Cynllunio a pharatoi eu Manyleb Ddylunio yn ofalus.<br>* Bydd y myfyrwyr yn - nodi gwybodaeth bwysig yn ymwneud â: Diogelwch, Cwsmer, Estheteg, Amgylchedd, Maint, Pwysau, Swyddogaeth a Chynnal a Chadw/Gweithgynhyrchu. (pwyntiau ACCESS FM)<br>* Rhaid gosod yr holl wybodaeth mewn trefn o ran pwysigrwydd.<br>* Bydd y gwaith yn cael ei fapio'n ofalus cyn y wers.<br><br>**15– 16 Bydd y myfyrwyr yn gallu... Briff Terfynol**<br>* Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil perthnasol, bydd y myfyrwyr yn ysgrifennu Briff Terfynol ar gyfer eu prosiect<br>* Cwblhau'r holl weithgareddau ymchwil perthnasol a chyflwyno'r gwaith.<br><br>***Cyfnod Astudio Annibynnol***<br>Ymchwil i'r broses ddylunio Iterus a sut y defnyddir y broses yn y diwydiant Dylunio, gan fyfyrio ar Fanteision ac Anfanteision y broses. | **Asesiad**<br><br>**Manyleb Ddylunio:**<br><br>**ACD**<br><br>**Gradd:**<br><br>**/12** | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br>1. Bydd y myfyrwyr yn creu darn o waith ysgrifenedig i egluro'r holl bwyntiau yn y Fanyleb Ddylunio yn fanwl.<br>2. Bydd yr holl osodiadau wedi'u labelu a'u gosod mewn trefn o ran pwysigrwydd. | **Gwaith Cartref W4**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Ymchwil yn seiliedig ar eu hymchwil a chwblhau drafftiau terfynol o'r Fanyleb a'r Briff. |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 5:**<br><br>**17 - 20 Bydd y myfyrwyr yn gallu… Cynhyrchu/Braslunio Syniad Cychwynnol**<br>* Dylunio ystod o syniadau sy'n ymateb i'r briff, gan ddefnyddio'r broses ddylunio iterus<br>* Cynhyrchu ystod o frasluniau a'u cyflwyno yn eu llyfr braslunio<br>* Rhaid anodi/arlliwio'r holl syniadau'n glir<br><br>***Cyfnod Astudio Annibynnol***<br>Cynhyrchu lluniau CAD o rai o'r syniadau cychwynnol. | **Asesiad** | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn egluro eu bwriadau/syniadau yn glir.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn trafod ac yn ystyried posibiliadau eraill trwy ddatblygu'r dyluniad ymhellach. | **Gwaith Cartref W5**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Braslunio syniadau cychwynnol |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 6:**<br><br>**26 - 30 Bydd y myfyrwyr yn gallu...**<br>**Datblygu syniadau trwy ddefnyddio'r broses ddylunio Iterus**<br>* Datblygu ystod o'u syniadau gorau sy'n dangos dawn graffigol a chyfathrebu<br>* Modelu eu syniad, lle y bo angen<br>* Cyflwyno pob syniad i safon uchel<br>* Dangos y mesuriadau'n glir<br>* Anodi syniadau'n glir (deunyddiau a phrosesau)<br>* Profi gwahanol ddeunyddiau / uniadau / prosesau a chofnodi canfyddiadau yn y llyfr braslunio / dyddiadur<br><br>***Cyfnod Astudio Annibynnol***<br>Ymarfer modelu 3D gan ddefnyddio deunyddiau perthnasol i helpu'r broses ddylunio iterus a defnyddio ffotograffau a brasluniau i ddatblygu'r syniad cychwynnol gorau. | **Asesiad**<br><br>**Cwestiwn Arholiad Theori:**<br><br>Asesiad Crynodol: | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn egluro eu bwriadau/syniadau yn glir.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn trafod ac yn ystyried posibiliadau eraill trwy ddatblygu'r dyluniad ymhellach.<br>3. AC yn y Rhaglen Ddysgu Theori | **Gwaith Cartref W6**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Cofnodi canfyddiadau |
| **Deilliannau Dysgu Wythnos 7:**<br><br>**31 - 35 Bydd y myfyrwyr yn gallu…**<br>**Datblygu syniadau trwy ddefnyddio'r broses ddylunio Iterus** (Parhad)<br>* Modelu eu syniad<br>* Lliwio'r holl syniadau i safon uchel<br>* Anodi'r syniadau'n glir (deunyddiau a phrosesau)<br>* Profi gwahanol ddeunyddiau / uniadau / prosesau a chofnodi'r canfyddiadau yn y llyfr braslunio / dyddiadur<br>* Gofyn am/cofnodi sylwadau cyfoedion a chwsmeriaid i lywio'r broses ddylunio iterus yn y cam nesaf yn y broses ddylunio<br><br>***Cyfnod Astudio Annibynnol***<br>Profi deunyddiau neu brofi gorffeniadau, gan gynnwys "bwrdd naws" i ddangos canfyddiadau. Crynhoi a chofnodi yn eu llyfr braslunio. | **Asesiad** | **Meini Prawf Llwyddiant:**<br><br>1. Bydd myfyrwyr yn egluro eu bwriadau/syniadau yn glir.<br>2. Bydd y myfyrwyr yn trafod ac yn ystyried posibiliadau eraill trwy ddatblygu'r dyluniad ymhellach. | **Gwaith Cartref W7**<br><br>Gwaith Cartref Parhaus: Cofnodi canfyddiadau |

**Fe allai'r Rhaglen Ddysgu hon newid.**